Teitl y Rôl: Darlithydd 2 -  Addysgu ac Ymchwil

## CYFATHREBU

### Cyfathrebu Llafar:

Yn aml, derbyn, deall a throsglwyddo gwybodaeth uniongyrchol mewn dull clir a chywir.

Yn aml, derbyn, deall a throsglwyddo gwybodaeth sydd angen esboniad neu ddadansoddiad gofalus i helpu eraill i'w deall, gan roi ystyriaeth i'r hyn sydd i'w gyfathrebu a'r ffordd orau i drosglwyddo'r wybodaeth i eraill.

Yn aml, derbyn, deall a throsglwyddo syniadau cysyniadol cymhleth neu wybodaeth gymhleth a all fod yn hynod o fanwl, yn dechnegol neu'n arbenigol.

Sefydlu, adeiladu neu arwain rhwydweithiau mewnol; cynnal perthnasau dros amser; sefydlu sianeli cyfathrebu i'ch hunan ac i eraill eu defnyddio er mwyn sicrhau y lledaenir gwybodaeth yn y fformat cywir i'r bobl gywir ar yr adeg gywir; adeiladu cysylltiadau er mwyn hwyluso rhannu gwybodaeth yn y dyfodol.

Sefydlu, adeiladu neu arwain rhwydweithiau y tu allan i'r sefydliad er mwyn sicrhau y lledaenir gwybodaeth yn y fformat cywir i'r bobl gywir ar yr adeg gywir; adeiladu cysylltiadau er mwyn hwyluso rhannu gwybodaeth yn y dyfodol.

## DARPARU GWASANAETH

### Prif Ffocws

Delio â chysylltiadau mewnol neu allanol sy'n gofyn am wasanaeth neu sy'n ceisio gwybodaeth; creu delwedd gadarnhaol o'r sefydliad drwy fod yn ymatebol ac yn gyflym wrth ymateb i geisiadau a chyfeirio'r defnyddiwr at y person cywir os oes angen.

## MENTER A DATRYS PROBLEMAU

### Gofynion Goblygedig

Datrys problemau syml dydd-i-ddydd wrth iddynt godi; dewis rhwng nifer o opsiynau sydd â chanlyniadau clir, drwy ddilyn canllawiau neu gyfeirio at yr hyn sydd wedi cael ei wneud yn flaenorol; a gwybod pryd y dylid cyfeirio problem at bobl eraill.

### Prif Ffocws

Defnyddio menter a chreadigrwydd i ddatrys problemau lle nad yw’r ateb gorau yn amlwg ar unwaith ond lle mae’n rhaid asesu drwy broses o resymu, gan bwyso a mesur y rhesymau dros ac yn erbyn gwahanol agweddau; adnabod ac asesu opsiynau ymarferol; a rhannu’r broblem yn gydrannau.

### Ffocws Eilaidd

Yn achlysurol, datrys problemau lle ceir swp o wybodaeth neu ddata amrywiol, rhannol ac anghyson, gydag amrediad o opsiynau posibl; defnyddio creadigrwydd wrth ddyfeisio datrysiadau amrywiol, gan edrych ar y broblem o wahanol agweddau.

## DADANSODDI AC YMCHWIL

### Gofynion Goblygedig

## AMGYLCHEDD GWAITH

### Prif Ffocws (neu Ofynion Goblygedig)

Gweithio mewn amgylchedd sy'n gymharol sefydlog ac nad yw'n effeithio llawer ar ddeiliad y swydd na'r ffordd y mae'r gwaith yn cael ei gwblhau.

agweddau neu bynciau arbennig o fewn disgyblaeth neu arbenigedd academaidd penodol; monitro perfformiad gan gynnig adborth ac arweiniad; gweithredu fel catalydd ar gyfer datblygiad neu ddysgu pellach.

Cynllunio cynnwys neu ddeunydd dysgu o fewn fframweithiau sy'n bodoli; gwneud addasiadau priodol i ddeunydd sydd eisoes yn bodoli ar sail gwybodaeth neu brofiad y dysgwr/dysgwyr er mwyn cyflwyno amrediad o weithgaredd dysgu neu ddatblygu o fewn disgyblaeth neu arbenigedd academaidd penodol, dysgu ar draws ehangder neu ddyfnder y pwnc; herio meddwl a meithrin dadlau; annog datblygiad rhesymu a chywirdeb deallusol.

## GWYBODAETH A PHROFIAD

Defnyddio ehangder neu ddyfnder gwybodaeth gan ddangos gwybodaeth a hyfedredd llawn yn ei faes arbenigedd ei hun; gweithredu fel pwynt cyfeirio i eraill; dangos datblygiad arbenigol parhaus, gan sicrhau a mireinio sgiliau ac arbenigedd mewn meysydd newydd neu berthnasol drwy ymgymryd â gweithgaredd datblygu mewnol neu allanol ac annog hynny.